# Cyngor Tref Aberaeron

# Cynllun Cyhoeddi

Y mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn seiliedig ar y cynllun enghreifftiol a pharatowyd ac a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn rhwymo Cyngor Tref Aberaeron i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn perthyn i'r dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, lle bo'r wybodaeth hon yn cael ei chadw gan yr awdurdod.

Mae'r cynllun yn rhwymo Cyngor y Dref:

- i gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan yr awdurdod ac sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.
- i enwi'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod ac sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.
- i gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn
- i gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau a ddefnyddir i ofalu bod y wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel bod modd i'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrraedd yn hawdd.
- i adolygu a diweddaru'n rheolaidd y wybodaeth mae'r awdurdod yn trefnu ei bod ar gael dan y cynllun hwn.
- i gynhyrchu rhestr o bob ffi a godir i gael mynediad i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael.
- i drefnu bod y cynllun cyhoeddi ar gael i'r cyhoedd.

**Dosbarthiadau o Wybodaeth**

**Pwy ydym ni a beth a wnawn.**

Gwybodaeth drefniadol, lleoliadau a chytundebau, rheolaeth gyfansoddiadol a chyfreithiol.

**Beth a wariwn a sut y gwariwn ef.**

Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant amcanol a go iawn, tendro, caffael a chytundebau.

**Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio.**

Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygon ac adolygiadau.

**Sut y gwnawn benderfyniadau.**

Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau'n ymwneud â gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

**Ein polisïau a'n gweithdrefnau.**

Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

**Rhestrau a Chofrestrau.**

Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau a fynnir gan y gyfraith a rhestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

**Y Gwasanaethau a Gynigiwn.**

Cyngor a chanllawiau, llyfrynnau a thaflenni, gweithrediadau a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth yn gyffredinol yn cynnwys:

- Gwybodaeth y rhwystrir ei datgelu gan y gyfraith neu sydd wedi'i heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu a ystyrir yn briodol fel arall ei bod wedi'i diogelu rhag gael ei datgelu.
- Gwybodaeth ar ffurf drafft.
- Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn hawdd oherwydd ei bod mewn ffeiliau a storiwyd mewn archif, neu sydd yn anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

**Y dull a ddefnyddir i beri bod y wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael**

Bydd yr awdurdod yn nodi'n glir i'r cyhoedd pa wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun hwn a sut y gellir ei chael.

Pan fo o fewn gallu awdurdod cyhoeddus, darperir y wybodaeth ar wefan. Pan fo'n anymarferol i drefnu bod gwybodaeth ar gael ar wefan neu pan na fo unigolyn yn dymuno cyrraedd y wybodaeth ar y wefan, bydd yr awdurdod cyhoeddus yn nodi sut y gellir cael gwybodaeth drwy ddull arall ac yn ei darparu drwy'r dull hwnnw.

Mewn amgylchiadau eithriadol mae'n bosibl na fydd modd cael gwybodaeth ond drwy ei gweld yn bersonol. Pan nodir y dull hwn, darperir manylion cysylltu. Trefnir apwyntment i weld y wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol.

Darperir gwybodaeth yn yr iaith y cedwir hi ynddi neu mewn unrhyw iaith arall y mae'n gyfreithiol ofynnol ei chael. Pa fo gofyn i awdurdod gyfieithu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, bydd yn gwneud hynny.

Ufuddheir i rwymedigaethau dan ddeddfau anabledd neu wahaniaethu ac unrhyw ddeddfau eraill i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau ac mewn fformatau eraill pan ddarperir gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

**Taliadau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn**

Pwrpas y cynllun hwn yw peri bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn hawdd i'r cyhoedd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost ag sy'n bosibl.

Ni chodir tâl am ddarparu'r gwybodaeth hwn.

Prun bynnag bydd unrhyw daliadau a godir gan y Cyngor am ddeunydd a gyhoeddir fel mater o drefn yn cael eu cyfiawnhau a byddant yn dryloyw ac mor isel ag sy'n bosibl.

Gellir codi tâl am wybodaeth sydd yn atebol i system daliadau a bennir gan y Senedd.

Gellir codi tâl am alldaliadau go iawn a gyfyd fel:

- llungopïo
- postio a phecynnu
- y costau a gyfyd yn uniongyrchol o ganlyniad i weld gwybodaeth

Os codir tâl, rhoddir cadarnhad o’r taliad dyledus cyn darparu’r wybodaeth. Gellir gofyn am y tâl cyn darparu’r wybodaeth.

**Delio gyda Cheisiadau am Gopïau Caled o Wybodaeth**

Dylid anfon cais at Glerc y Cyngor, Mr Denfer Morgan naill ai drwy anfon ebost at ctaberaeron@btinternet.com
neu lythyr at Denfer Morgan, Clerc y Cyngor, Cyngor Tref Aberaeron, Nantgwyn, Heol Llyswen, Aberaeron SA46 0ED

Atebir ceisiadau o fewn 14 niwrnod.

**Ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Gellir gofyn am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus nad yw wedi ei gyhoeddi dan y cynllun hwn yn ysgrifenedig, a bydd ei darparu yn cael ei ystyried yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## Gwybodaeth ar gael gan Gyngor Tref Aberaeron dan y Cynllun Cyhoeddi

| Gwybodaeth i'w chyhoeddi | Sut y gellir cael y wybodaeth |
|---|---|
| **Dosbarth 1 - Pwy ydym ni a beth yr ydym yn ei wneud (1)** | |
| Pwy yw pwy ar y Cyngor | Gwefan a chopi caled |
| Manylion cyswllt ar gyfer y Clerc ac Aelodau'r Cyngor | Gwefan a chopi caled |
| Lleoliad prif swyddfa'r Cyngor | Gwefan a chopi caled |
| **Dosbarth 2 – Beth ydym ni'n ei wario a sut** | |
| Ffurflen flynyddol ac adroddiad yr archwiliwr (2) | Gwefan a chopi caled |
| Cyllideb Blynyddol | Gwefan a chopi caled |
| Praesept | Gwefan a chopi caled |
| Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol | Gwefan a chopi caled |
| Grantiau a roddwyd ac a dderbyniwyd | Gwefan a chopi caled |
| Rhestr o'r contractau presennol a ddyfarnwyd a gwerth y contract | Gwefan a chopi caled |
| Lwfansau a threuliau'r Aelodau (3) | Gwefan a chopi caled |
| | |
| **Dosbarth 3 – Ein blaenoriaethau a lle'r ydym arni** | |
| Cynllun Busnes | Gwefan a chopi caled |
| Adroddiad Blynyddol (4) | Gwefan a chopi caled |
| | |
| **Dosbarth 4 – Y ffordd y byddwn yn llunio penderfyniadau** | |
| Amserlen cyfarfodydd y Cyngor | Gwefan a chopi caled |
| Agendâu cyfarfodydd | Gwefan a chopi caled |

| | |
|---|---|
| Cofnodion cyfarfodydd (ar wahan i wybodaeth yr ystyrir yn gywir yn gyfrinachol) | Gwefan a chopi caled |
| Adroddiadau a gyflwynwyd i gyfarfodydd y Cyngor | Gwefan a chopi caled |
| Ymatebion i bapurau ymgynghorol | Gwefan a chopi caled |
| Ymatebion i geisiadau cynllunio | Gwefan a chopi caled |
| | |
| **Dosbarth 5 – Ein polisïau a gweithdrefnau** | |
| Rheolau Sefydlog | Gwefan a chopi caled |
| Cod Ymddygiad Aelodau (6) | Gwefan a chopi caled |
| Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â cheisiadau am wybodaeth | Gwefan a chopi caled |
| Polisi Delio gyda Chwynion | Gwefan a chopi caled |
| Polisi diogelwch gwybodaeth | Gwefan a chopi caled |
| Polisïau rheoli cofnodion (cadw, dinistrio ac archifo dogfennau) | Gwefan a chopi caled |
| Polisïau diogelu data | Gwefan a chopi caled |
| Datganiad Preifatrwydd | Gwefan a chopi caled |
| | |
| **Dosbarth 6 – Rhestri a Chofrestri**<br>**Y Rhai a gynhelir yn gyfredol yn unig** | |
| Cofrestr asedau | Gwefan a chopi caled |
| Cofrestr o Fuddiannau Aelodau (7) | Gwefan a chopi caled |
| | |
| **Dosbarth 7 – Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig** | |
| Digwyddioad Nadolig Cymunedol | Gwefan a chopi caled |
| Goleuadau’r Nadolig a’r Harbwr | Gwefan a chopi caled |
| Llefydd a Meysydd Chwarae | Gwefan a chopi caled |
| Darparu arddangosfeydd blodau | Gwefan a chopi caled |
| Torri porfa | Gwefan a chopi caled |
| Trasho llwybrau | Gwefan a chopi caled |
| Cyfrannu tuag at gostau tŷ bach Traeth y De | Gwefan a chopi caled |

**Mae yna ofyniad i gyhoeddi'r gwybodaeth isod yn unol â gofynion statudau eraill**

(1) Adran 55(1) Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013

(2) Mae hawl gan Etholwyr o dan Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 gael cyfle i archwilio cyfrifon a dogfennau sy'n ymwneud â hwy sydd ar gael ar gyfer eu harchwilio yn gyhoeddus.

(3) Mesur Llywodraerth Leol (Cymru) 2011 (fel a ddiwygiwyd).

(4) Adran 52 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

(5) Adran 50 Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru 2021 / Adran 55(1) Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013

(6) Adran 51 (6)(b)(iii) o Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000

(7) Adran 58 Deddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013